Llywodraeth Cymru
Welsh Government

General Data Protection Regulation Privacy Statement
Correspondence received in respect of Highways & Traffic Orders and Blight & Discretionary Purchase of Properties

The information that you have provided, including any personal data, will be shared by the Welsh Government when we need to consult with one or more of the following organisations in order to form an appropriate response to the issues you have raised.

- Welsh Government's Trunk Road Agents;
- Welsh Government's appointed Property Valuer;
- Consultants appointed by the Welsh Government for a trunk road scheme;
- A Local Highway Authority;
- A Public Local Inquiry Inspector and the inquiry library which would be available to the public at the inquiry venue and potentially on the public inquiry website;
- The applicant of a stopping up or extinguishment of vehicular rights order;
- Planning Inspectorate
- Department for Transport.

The Welsh Government will be data controller for any personal data you have submitted and in pursuance of our public task and the authority vested in the Welsh Government, it will only be disclosed to the above organisations where it is necessary to do so to enable us to deal with the issues you have raised.

The occasions we will need to share your data will depend upon the circumstances involved. This is described in more detail in Annex A to this Statement.

Under the General Data Protection Regulation you have the right to:

- Access to the personal data that we are processing about you;
- Require us to rectify inaccuracies in that data;
- The right (in certain circumstances) to object to or restrict processing;
- The right (in certain circumstances) for your data to be 'erased';
- Lodge a complaint with the Information Commissioner's Office (ICO) who is our independent regulator for data protection.

The personal data you have provided will be retained by Welsh Government for as long as it is deemed relevant to a case or scheme as referenced in Annex A.

For further information about the personal data collected and its use, if you have any concerns about the accuracy of personal data, or wish to exercise any of your rights under the general data protection regulation, you should contact:

- The Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ - TransportOrdersBranch@gov.wales;
- The Welsh Government's Data Protection Officer, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ (or DataProtectionOfficer@gov.wales);
- The Information Commissioners Office help line can be contacted on 01625 545745.

Further information on Data Protection may be obtained at https://ico.org.uk

General Data Protection Regulation Privacy Statement
Correspondence received in respect of Highways & Traffic Orders and Blight & Discretionary Purchase of Properties

Annex A

The following outlines the basis that we obtain and share your information.

Trunk Road Schemes

When promoting trunk road schemes Welsh Ministers are statutorily required to invite objections and comments. These requirements are laid down in the Highways Act 1980 and Acquisition of Land Act 1981. This provides you with your statutory right to raise concerns.

To enable these concerns to be addressed the contents of your correspondence needs to be passed to our Project Team, which will involve Welsh Government officials; the appointed Scheme Consultants and Contractor where the proposed scheme is subject is subject to early contractor involvement. The aim of this process is to try to allay your concerns and potentially reach agreement. However, it is your right to maintain your objections should you so wish.

Where a Scheme results in a Public Local Inquiry (PLI), it is necessary for all correspondence to be passed to the appointed Inspector so that she/he may have a full understanding of all the issues raised and how a person may be affected by the proposals. Part of the PLI process will involve maintaining all objections in the PLI Library where they will be open to public inspection and potentially available on the PLI website which provides access to the PLI proceedings.

Post PLI, the Inspector's report and Minister's formal decision, which can contain details of individual objections will be sent to all those who corresponded. Copies are also normally published on the Welsh Government's webpage.

Individual correspondence would be retained for the period up until the scheme has been constructed or if the scheme is abandoned. This can range from 3 to 10 years depending on a Scheme's programme.

If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why. If there is to be a PLI, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

Statutory Blight Notices and Discretionary Purchase Applications

Such notices and applications are instigated by the individuals concerned. The legislative basis for doing so is the Town and Country Planning Act 1990 and Highways Act 1980. They are subject to both legislative and policy criteria.

Personal data such as names and addresses are a pre-requisite for being able to consider such notices and applications and is set out in the prescribed form for Blight Notices and discretionary purchase application. In respect of the latter, this may contain personal financial, mortgage, bank or health information that would have been endorsed by a referee or medical practioner.

Such information will be treated in the strictest of confidence and will all only be seen by Welsh Government officials, the Project Team and our appointed Valuer.

Individual correspondence would be retained for a period up until the scheme has been constructed or if the scheme is abandoned. This can range from 3 to 10 years depending of a Scheme's programme.

Traffic Regulation Orders

When proposing Traffic Regulation Orders on the trunk road network, Welsh Ministers are statutorily required to invite objections and comments. These requirements are laid down in the Road Traffic Regulation Act 1984 and The Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990. This provides you with your statutory right to raise concerns.

To enable these concerns to be addressed the contents of your correspondence will need to be considered by the Project team comprising Welsh Government officials and our Trunk Road Agent. The aim of this process is to try to allay your concerns and potentially reach agreement. However, it is your right to maintain your objection should you so wish.

Individual correspondence would be retained for a period of approximately 3 years.

If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why.

Stopping Up Orders under the Town and Country Planning Act 1990

The above Act provides the Welsh Ministers with powers to make an order to extinguish (stop up) highways and, if required, provide or improve highways, in order to enable development to be carried out in accordance with a valid and relevant planning permission. It also provides powers to make an order to extinguish vehicular rights and create a pedestrianised area.

Under the Act Welsh Ministers are statutorily required to publish a draft order and to invite any objections or concerns.

It is for the stopping up applicant to resolve any objections to the proposed Order. We therefore copy the contents of your correspondence to them so that they can negotiate with you with a view to resolving your concerns.

When objections cannot be resolved, it will normally be necessary for a PLI to be held.
It is necessary for all correspondence to be passed to the appointed Inspector so that she/he may have a full understanding of all the issues raised and how a person may be affected by the proposed stopping up. Part of the PLI process will involve maintaining all objections in the PLI Library where they would be open to public inspection and potentially available on the PLI website which provides access to the PLI proceedings.

Post PLI, the Inspector's report and Minister's formal decision, which can contain details of individual objections will be sent to all those who corresponded. Copies will also normally be published on the Welsh Government's webpage.

If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why. If there is to be a Public Local Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

Lawfulness of processing

The processing of any personal data is being undertaken in accordance with paragraph 1 (c), (d) and (e) of Article 6 and paragraph 2 (a) of the General Data Protection Regulation.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hysbysiad Preifatrwydd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
Gohebiaeth a ddaeth i law mewn perthynas â Gorchmynion Priffyrdd a Thraffig, a Malltod a Phrynu Eiddo yn Ôl Disgresiwn

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu'r wybodaeth rydych chi wedi'i darparu, gan gynnwys unrhyw ddata personol, pan fydd angen i ni ymgynghori ag un neu fwy o'r sefydliadau canlynol er mwyn llunio ymateb priodol i'r materion rydych chi wedi'u codi.

- Asiantwyr Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru;
- Prisiwr Eiddo a benodwyd gan Lywodraeth Cymru;
- Ymgynghorwyr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynllun cefnffyrdd;
- Awdurdod Priffyrdd Lleol;
- Arolygydd Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus a llyfrgell yr ymchwiliad a fyddai ar gael i'r cyhoedd yn lleoliad yr ymchwiliad ac o bosibl ar wefan yr ymchwiliad cyhoeddus;
- Ymgeisydd gorchymyn cau neu ddiddymu hawliau cerbydol;
- Yr Arolygiaeth Gynllunio;
- Yr Adran Drafnidiaeth.

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd data unrhyw ddata personol rydych chi wedi'i gyflwyno ac, yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod a roddwyd i Lywodraeth Cymru, bydd ond yn cael ei ddatgelu i'r sefydliadau uchod lle bo angen gwneud hynny i'n galluogi i fynd i'r afael â'r materion rydych chi wedi'u codi.

Bydd yr achlysuron pan fydd angen i ni rannu'ch data yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'r amgylchiadau hyn wedi'u disgrifio'n fanylach yn Atodiad A i'r Datganiad hwn.

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae'r hawl gennych:

- i weld y data personol amdanoch yr ydym yn eu prosesu;
- i ofyn inni gywiro camgymeriadau yn y data hynny;
- yr hawl (mewn amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu'r wybodaeth neu gyfyngu ar ei phrosesu;
- yr hawl (mewn rhai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu';
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich data personol cyhyd â'u bod yn berthnasol i'r achos neu'r cynllun y cyfeirir ato yn Atodiad A.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y data personol a gasglwyd a sut y bydd yn cael eu defnyddio, os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb y data, neu'n dymuno arfer unrhyw un o'ch hawliau dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data , dylech gysylltu â:

- Llywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ - Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru
- Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (neu DataProtectionOfficer@gov.wales);
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ffonio 01625 545745.

Cewch fwy o wybodaeth am Ddiogelu Data yn https://ico.org.uk

Hysbysiad Preifatrwydd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
Gohebiaeth a ddaeth i law mewn perthynas â Gorchmynion Priffyrdd a Thraffig, a Malltod a Phrynu Eiddo yn Ôl Disgresiwn

Atodiad A

Mae'r canlynol yn amlinellu'r sail ar gyfer cael a rhannu'ch gwybodaeth.

Cynlluniau Cefnffyrdd

Wrth hyrwyddo cynlluniau cefnffyrdd, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru wahodd gwrthwynebiadau a sylwadau. Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn Neddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981. Mae hyn yn rhoi hawl statudol i chi godi pryderon.

Er mwyn sicrhau y gellir trafod y pryderon hyn, mae angen i gynnwys eich gohebiaeth gael ei gyflwyno i'n Tîm Prosiect, a fydd yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru; Ymgynghorwyr a Chontractwr penodedig y Cynllun lle mae'r cynllun arfaethedig yn ddarostyngedig i gyfraniad cynnar gan gontractwyr. Nod y broses hon yw ceisio tawelu'ch pryderon a dod i gytundeb. Fodd bynnag, mae gennych chi'r hawl i gynnal eich gwrthwynebiadau os ydych chi'n dymuno gwneud hynny.

Pan fo Cynllun yn arwain at Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus (PLI), mae angen i bob gohebiaeth gael ei chyflwyno i'r Arolygydd penodedig fel bod ganddo ddealltwriaeth lawn o'r holl faterion a godwyd a sut y gall person gael ei effeithio gan y cynigion. Bydd rhan o'r broses PLI yn cynnwys cadw pob gwrthwynebiad yn Llyfrgell y PLI lle byddant ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ac ar gael ar wefan y PLI sy'n darparu mynediad at achosion y PLI.

Ar ôl y PLI, bydd adroddiad yr Arolygydd a phenderfyniad ffurfiol y Gweinidog, sy'n gallu cynnwys manylion gwrthwynebiadau unigol, yn cael eu hanfon at bawb a anfonodd ohebiaeth. Fel arfer, mae copïau'n cael eu cyhoeddi ar dudalen we Llywodraeth Cymru hefyd.

Byddai gohebiaeth unigol yn cael ei chadw am gyfnod hyd nes i'r cynllun gael ei greu neu os bydd y cynllun yn cael ei adael. Gall hyn amrywio o 3 i 10 mlynedd yn dibynnu ar raglen y Cynllun.

Os nad ydych chi am i ddata personol gael ei drosglwyddo i drydydd partïon, dylech ddweud pam. Os bydd PLI, bydd y sylwadau'n cael eu gweld gan yr Arolygydd a all roi llai o bwys iddyn nhw o ganlyniad i hynny.

Hysbysiadau Malltod Statudol a Cheisiadau Prynu Eiddo yn ôl Disgresiwn

Mae hysbysiadau a cheisiadau o'r fath yn cael eu hysgogi gan yr unigolion dan sylw. Y sail ddeddfwriaethol dros wneud hynny yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Priffyrdd 1980. Maent yn ddarostyngedig i feini prawf deddfwriaethol a pholisi.

Mae data personol megis enwau a chyfeiriadau yn rhagofyniad i allu ystyried hysbysiadau a cheisiadau o'r fath, ac fe'i hamlinellir yn y ffurflen ragnodedig ar gyfer Hysbysiadau Malltod a cheisiadau prynu eiddo yn ôl disgresiwn. O ran yr ail un o'r rhain, gall hyn gynnwys gwybodaeth bersonol am arian, morgais, banc neu iechyd a fyddai wedi'i harnodi gan ddyfarnwr neu ymarferydd meddygol.

Bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol ac ond yn cael ei gweld gan swyddogion Llywodraeth Cymru, Tîm y Prosiect a'n Prisiwr penodedig.

Byddai gohebiaeth unigol yn cael ei chadw am gyfnod hyd nes i'r cynllun gael ei greu neu os bydd y cynllun yn cael ei adael. Gall hyn amrywio o 3 i 10 mlynedd yn dibynnu ar raglen Cynllun.

Gorchmynion Rheoleiddio Traffig

Wrth gynnig Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar y rhwydwaith cefnffyrdd, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru wahodd gwrthwynebiadau a sylwadau. Mae'r gofynion hyn wedi'u gosod yn Neddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Rheoliadau Gorchmynion Traffig (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990 yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hyn yn rhoi hawl statudol i chi godi pryderon.

Er mwyn sicrhau y gellir trafod y pryderon hyn, bydd angen i gynnwys eich gohebiaeth gael ei ystyried gan dîm y Prosiect sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a'n Hasiant Cefnffyrdd. Nod y broses hon yw ceisio tawelu'ch pryderon a dod i gytundeb. Fodd bynnag, mae gennych chi'r hawl i gynnal eich gwrthwynebiadau os ydych chi'n dymuno gwneud hynny.

Bydd gohebiaeth unigol yn cael ei chadw am gyfnod o oddeutu 3 blynedd.

Os nad ydych chi am i ddata personol gael ei drosglwyddo i drydydd partïon, dylech ddweud pam.

Gorchmynion Cau Priffyrdd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Mae'r Ddeddf uchod yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i gau priffyrdd ac, os bydd angen, darparu neu wella priffyrdd, er mwyn galluogi datblygiad yn unol â chaniatâd cynllunio dilys a pherthnasol. Mae'n rhoi pwerau hefyd i wneud gorchymyn i ddileu'r hawl i yrru cerbydau a chreu ardal i gerddwyr.

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi gorchymyn drafft a gwahodd unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd datrys unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig. Felly, rydym yn anfon cynnwys eich gohebiaeth atynt fel y gallant drafod gyda chi gyda'r nod o ddatrys eich pryderon.

Os na ellir datrys gwrthwynebiadau, fel arfer bydd angen cynnal PLI. Mae angen i bob gohebiaeth gael ei chyflwyno i'r Arolygydd penodedig fel bod ganddo ddealltwriaeth lawn o'r holl faterion a godwyd a sut y gall person gael ei effeithio gan y cynigion. Bydd rhan o'r broses PLI yn cynnwys cadw pob gwrthwynebiad yn Llyfrgell y PLI lle byddant ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ac ar gael ar wefan y PLI sy'n darparu mynediad at achosion y PLI.

Ar ôl y PLI, bydd adroddiad yr Arolygydd a phenderfyniad ffurfiol y Gweinidog, sy'n gallu cynnwys manylion gwrthwynebiadau unigol, yn cael eu hanfon at bawb a anfonodd ohebiaeth. Fel arfer, mae copïau'n cael eu cyhoeddi ar dudalen we Llywodraeth Cymru hefyd.

Os nad ydych chi am i ddata personol gael ei drosglwyddo i drydydd partïon, dylech ddweud pam. Os bydd PLI, bydd y sylwadau'n cael eu gweld gan yr Arolygydd a all roi llai o bwys iddyn nhw o ganlyniad i hynny.

Cyfreithlondeb y prosesu

Mae unrhyw ddata personol yn cael ei brosesu yn unol â pharagraff 1 (c), (d) ac (e) o Erthygl 6 a pharagraff 2 (a) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.